

Materion Ewrop

(Cynhyrchwyd gan
Swyddfa UE
Cynulliad Cenedlaethol
Cymru)



Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales

Rhifyn 9 – Tachwedd 2007

Cyflwyniad

Croeso i nawfed rhifyn cylchlythyr Materion Ewrop. Bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn cyhoeddi ei raglen ddeddfwriaethol a'i raglen waith ar gyfer y flwyddyn a ganlyn yn ystod tymor yr hydref, sy'n cyfateb yn fras i Araith y Frenhines yn yr UE. Cyhoeddwyd rhaglen waith 2008 ar 23 Hydref ac mae'n nodi prif fentrau polisi a deddfwriaethol y Comisiwn y gallwn ddisgwyl eu gweld yn ystod y 12 i'r 18 mis nesaf.

Mae'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol eisoes wedi nodi rhai o'r materion hyn fel materion sydd o bwys i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiad o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori yr wythnos hon), yr ymgynghoriad ar yr adolygiad o gyllideb yr UE a dyfodol y polisi cydlyniant ar ôl 2013. Bydd newid yn yr hinsawdd hefyd yn parhau'n uchel ar agenda'r UE ac yn cynnwys gwaith ar addasu i newid yn yr hinsawdd, ail adolygiad strategol o ynni a phecyn trafndiaeth werdd. Ym mis Rhagfyr, byddwn yn trafod rhaglen waith 2008 y Comisiwn. Er mwyn ein helpu i wneud hyn, rydym yn gobeithio cysylltu â rhai o Aelodau Cymru o Senedd Ewrop drwy gyfrwng cynhadledd fideo, a hynny'n fyw o Senedd Ewrop yn Strasbourg.

Mae'r Pwyllgor yn parhau â'i waith ar ei ymchwiliad i gyllid a chyfleoedd Banc Buddsoddi Ewrop i Gymru. Bydd uwch swyddogion o Fanc Buddsoddi Ewrop yn mynd i'r Pwyllgor ynghyd â Phennaeth eu swyddfa yn Llundain ar 27 Tachwedd. Bydd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru hefyd yn rhoi tystiolaeth.

Byddwn hefyd yn trafod Cysylltiadau Ewropeaidd a Rhyngwladol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ceir cynrychiolaeth gan y Cynulliad ar nifer o Gyrrff Ewropeaidd a Rhyngwladol fel y Corff Rhyngseneddol Prydeinig-Gwyddelig, Pwyllgor y Rhanbarthau a Chymdeithas Seneddol y Gymanwlad.

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwaith y Pwyllgor neu am y cylchlythyr hwn, cofiwch gysylltu.

Sandy Mewies

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

Busnes arfaethedig yn ymwneud â'r UE ym Mhwyllgorau'r Cynulliad.

[Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol](#)

[27 Tachwedd](#)

- **Ymchwiliad Banc Buddsoddi Ewrop** – bydd swyddogion o Fanc Buddsoddi Ewrop yn rhoi tystiolaeth ar y cyfleoedd a'r prosesau ar gyfer cael cyllid gan y Banc.
- **Ymchwiliad Banc Buddsoddi Ewrop** – bydd swyddogion o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Cyllid Cymru yn rhoi tystiolaeth ar y defnydd posibl o JEREMIE a JESSICA yn rhaglenni cronfeydd strwythurol Cymru.
- **Strategaeth Cysylltiadau Rhyngwladol ac Ewropeaidd Cynulliad Cenedlaethol Cymru** – mae Uned Ewropeaidd a Rhyngwladol y Cynulliad Cenedlaethol yn ceisio syniadau gan y Pwyllgor o ran themâu a gweithgareddau i ategu cysylltiadau Ewropeaidd a Rhyngwladol y Cynulliad yn y Trydydd Cynulliad.
- **Ymgynghoriad ar yr ymchwiliad i Fanc Buddsoddi Ewrop** – mae'r Pwyllgor yn galw ar y bobl hynny sydd â diddordeb neu arbenigedd yn y maes hwn i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig erbyn 31 Rhagfyr.

11 Rhagfyr 2007

- **Rhaglen Ddeddfwriaethol a Rhaglen Waith Blynyddol 2008 y Comisiwn** - bydd y Pwyllgor yn trafod rhaglen waith y Comisiwn ac yn nodi eitemau i'w trafod ymhellach yn y Pwyllgor yn 2008.

Eitemau'n ymwneud ag agenda'r UE

[Y Pwyllgor Menter a Dysgu](#)

[21 & 28 Tachwedd, 5 & 12 Rhagfyr](#)

- **Ymchwiliad y Pwyllgor i gyfraniad economaidd addysg uwch** - bydd y Pwyllgor yn trafod cylch gorchwyl a chwmpas yr ymchwiliad (21 Tachwedd) ac yn casglu tystiolaeth gan Addysg Uwch Cymru; Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a chynrychiolwyr o'r sector busnes.

12 Rhagfyr

- **Bydd y Pwyllgor yn trafod cynnig i sefydlu Is-bwyllgor Cronfeydd Strwythurol.**

Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

- **Ymchwiliad i faterion sy'n effeithio ar weithwyr mudol** - mae'r Pwyllgor yn galw ar bartïon â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig erbyn dydd Gwener 4 Ionawr 2008.

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

22 & 29 Tachwedd, 6 & 13 Rhagfyr

- **Ymchwiliad i leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru: y sector trafnidiaeth** – bydd y Pwyllgor yn casglu tystiolaeth ar ail ran ei ymchwiliad. Bydd Ieuan Wyn Jones AC, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn rhoi tystiolaeth ar 13 Rhagfyr.

Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

29 Tachwedd

- **Datblygiadau gyda'r achos o glwy'r traed a'r genau** – bydd Elin Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor.

6 Rhagfyr a'r 13 Rhagfyr

- **Ymchwiliad i dlodi gwledig ac amddifadedd** – sesiynau tystiolaeth.

Edrych yn ôl: Eitemau'n ymwneud â'r UE ym Mhwyllgorau'r Cynulliad

Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol – 23 October

- **Ymchwiliad i Fanc Buddsoddi Ewrop - Cymdeithas Adeiladu Nationwide a Chymdeithas Tai Cymoedd i'r Arfordir** - clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am fuddsoddi £45 miliwn mewn prosiect ailddatblygu tai a chymuned ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sy'n cynnwys cyllid gan Fanc Buddsoddi Ewrop.
- **Briff Prif Weinidog Cymru** – rhoddodd y Prif Weinidog y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar amrywiaeth o faterion yn cynnwys gwybodaeth am gytuniad diwygio'r UE a mentrau JEREMIE a JESSICA. Cytunodd y Prif Weinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn ystod tymor y gwanwyn am ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r ymgynghoriad ar Adolygiad Cyllideb yr UE a'r ymgynghoriad ar ddyfodol y polisi cydlyniant. Awgrymodd y cadeirydd y gallai'r Pwyllgor gymryd rhan yn ymweliad y Comisiynydd Margot Wallström ym mis Ionawr 2008. Ymrwymodd y Prif Weinidog i ddarparu Nodyn Briffio ar y sefyllfa bresennol o safbwynt cyfarwyddeb REACH.
- **Strategaeth Cysylltiadau Ewropeaidd a Rhyngwladol y Cynulliad Cenedlaethol** – cytunodd y Pwyllgor i drafod y mater hwn ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Y Pwyllgor Menter a Dysgu – 17 Hydref

- **Holi Gweinidogion ar faterion trawsbynciol: Cymru: Economi yn ffynnu, Cronfeydd Strwythurol ac Uno Adrannau** - craffodd y Pwyllgor ar waith Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac uwch swyddogion o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd y camau'n cynnwys cais am nodyn gan y Gweinidog dros Dreftadaeth yn cadarnhau cyfran y cymorth o gronfa strwythurol Ewrop a geir yng nghyllideb marchnata twristiaeth Cymru. Bydd y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn darparu Cynllun Busnes Blynyddol Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, yn cynnwys y trosoledd arfaethedig o gyllid Ewropeaidd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd – 15 Tachwedd

- **Ymchwiliad i leihau gollyngiadau carbon: y sector trafndiaeth** – trafododd y Pwyllgor bapur cwmpasu ar y dull o ymdrin â cham nesaf yr ymchwiliad i leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru a fydd yn canolbwyntio ar y sector trafndiaeth.

Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig – 18 Hydref

- **Ymchwiliad i amddifadedd gwledig a'r gwasanaethau a ddarperir** – trafodwyd papur cwmpasu a chylch gorchwyl ail ymchwiliad craffu'r Pwyllgor.

Lincs



[Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#)
[Hysbysiad Busnes y Cynulliad](#)
[Tudalennau'r Pwyllgor](#)
[Tudalennau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau](#)

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag



Anna Daniel, Pennaeth Swyddfa (anna.daniel@wales.gsi.gov.uk)
Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Rond Point Schuman, 11
B-1040 Bruxelles
Gwlad Belg
0032 2 226 66 92

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn anfon yr e-bost hwn atoch gan ein bod yn credu y bydd o ddiddordeb i chi. Os nad ydych am i ni anfon rhifynnau eraill o'r cylchlythyr atoch, neu os nad ydych wedi cael yr e-bost hwn yn uniongyrchol ac yn awyddus i ni ychwanegu'ch enw at y rhestr bestio, anfonwch e-bost at Anna Daniel.